**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**A gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth 12fed o Orffennaf am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**

Cynghorwyr – William Jones (WJ), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Olwen Roberts (OR), Dewi Ellis (DE), Gwyn D Roberts (GR), Sianelen Plemming (SP) a Lisbeth James (LJ).

**Ymddiheuriadau**
Emlyn Hughes a'r Cyng Aled Jones.

1. **Hysbysebiadau y Cadeirydd**

   Cafwyd croeso gan y Cadeirydd Olwen Roberts.

   Adroddodd fod Dafydd Roberts (DR) wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad fel Cynghorydd Cymuned. *Y Clerc i yrru llythyr o ddiolchgarwch am ei wasanaeth ar ran y Cyngor.*

2. **Dangos Diddordeb**

   Dim

3. **Cofnodion**

3.1 Cynigodd William Jones fod cofnodion y 14 o Fehefin yn gywir ac eiliodd Gwyn D Roberts. .

3.2 **Golau Tynyparc -** Yn disgwyl i Gyngor Gwynedd gysylltu. *Y Clerc i gysyllu gyda DR i ofyn pwy yw'r person cyswllt fel y gellir symud ymlaen fel yn briodol.*

3.3 **Dŵr yr Eifl –** Mae llif dŵr wedi difrodi trac ar y llwybr cyhoeddus sydd uwchlaw Gors Lwyd.
*Y Clerc:*
*a i gysyllu gyda DR i ofyn beth yn union sydd wedi cael ei wneud eisioes ac a oes anfoneb wedi dod i law am y gwaith.*
*b i gysylltu a'r person perthnasol yn y Cyngor Sir i ddarganfod ffordd ymlaen i atgyweirio'r difrod.*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

3.4 **Opsiynau o ran perchnogaeth y Ganolfan** – Cafwyd ddiweddariad ar gynnydd trafodaethau Pwyllgor y Ganolfan ynglyn â chynigion Cyngor Gwynedd. Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol iddynt gael barn y Cyngor Cymuned o ran yr opsiynau yn cynnwys:
a les tymor hir yn enw'r Cyngor Cymuned,
b creu cwmni cyfyngedig trwy warant newydd i brynu'r Ganolfan.
*Ar ôl trafodaeth penderfynwyd gofyn i'r Clerc*
*a gyda'r Swyddog Adfywio lleol ynghyd ac Un Llais i weld beth yw'r adnoddau professiynol sydd ar gael i roi arweiniad,*
*b ymchwilio i'r trefniant gweinyddol ffurfiol a fyddai ei angen gyda Phwyllgor y Ganolfan petai'r les yn enw'r Cyngor Cymuned.*

3.5 **Hysbysfwrdd ar wal y siop** – Ystyriwyd prisiau am £138.20, £99.95 a £80.40 am gyflenwi hysbysfwrdd addas. Penderfynwyd prynu'r un gan XL displays sy'n costio £80.40. *Y Clerc i weithredu.*

3.6 **Heddlu yn mynychu cyfarfodydd** –*Y Clerc i yrru dyddiadau, amser a lleoliad cyfarfodydd y Cyngor am 16/17 i'r man perthnasol.*
Adroddwyd fod nifer o achosion o gerbydau yn gor-yrru trwy bentref Llithfaen yn ddiweddar. *Y Clerc i gysylltu a'r Heddlu/Cyngor fel yn berthnasol i'w gwahodd i gyfarfod y Cyngor Cymuned tros dymor yr Hydref.*

3.7 **Archwilio/cyfrifon 14/15 a 15/16** - Adroddodd SP fod John Roberts am ddelio ag Archwiliad allannol 14/15 ar ôl iddo gwblhau cyfrifon y Cynghorau Cymuned eraill. Yna bydd yn cwblhau cyfrifion Pistyll am 15/16.

3.8 **Cyflog y Clerc –** Gan fod angen i'r Cyngor weithredu'r drefn PAYE wrth dalu i'r Clerc nid yw wedi cyflwyno y siec cyflog a gafodd ym mis Mai. Daeth yn hysbys y byddai'r Clerc blaenorol yn gweithredu'r system PAYE ar ran y Cyngor Cymuned. Cymerai hyn gryn dipyn o amser. Ystyriwyd tri phris gan Gyfrifwyr Siartedig am ymgymryd a'r gwaith hwn ar ran y Cyngor. (£375.64, £252.00 a £168 y flwyddyn yn cynnwys TAW). Penderfynwyd penodi A Hughes-Jones Dyson & Co i weithredu ar ran y Cyngor am £168 yn cynnwys TAW y flwyddyn. *Y Clerc i drefnu.*
Ysgrifenwyd siec am £300.00 i'r Clerc am ei waith tros dri mis. Dinistrwyd y siec rhif 200934 am £100.00 a gyflwynwyd iddo yn ystod cyfrafod mis Mai.

Nododd y Clerc iddo sicrhau model cytundeb cyflogi. *Y Clerc i gydweithio â'r Cadeirydd i ddatblygu drafft i'w gyflwyno i'r Cyngor.*

4. **Ceisiadau Cynllunio**

Dim

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

5. **Gohebiaeth**

5.1 **Biniau halen:** Derbynwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn nodi'r cynigion diwygiedig. Nododd y Clerc y manylion pellach a gafodd gan yr Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu'. Ar sail yr wybodaeth sydd i law penderfynwyd fod *y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i gadarnhau dymuniad y Cyngor Cymuned i ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor Sir ond i gyfeirio at anhegwch y diffyg blaenoriaeth a roddir i ritio rhai o ffyrdd yr ardal.*

5.2 **Toiledau Cyhoeddus:** Er mwyn i'r Cyngor Sir gwtogi costau cynnal a chadw y toiledau cyhoeddus sydd o dan eu gofal maent wedi gwahodd Cyngor Cymuned Pistyll i fynd i bartneriaeth â hwy er mwyn cadw toiledau cyhoeddus Llithfaen yn agored. Yn 2017/18 gofynir i'r Cyngor Cymuned gyfranu £4000.00 tuag at y costau blynyddol sydd ar gyfartaledd yn £7656.54. Byddai angen darganfod dulliau amgen i'w gadw'n agored am y blynyddoedd dilynol. Disgwylir i'r Cyngor Cymuned ymateb i'w ymholiad erbyn y 1 o Awst, 2016.
Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd fod angen amser i ymgynghori â thrigolion yr ardal ynglyn a'r opsiynau a'r cynnydd posibl a fyddai ei angen yn y praesept i alluogi'r Cyngor i fynd i bartneriaeth.
*Y Clerc i:*
*a.gysylltu a'r Cyngorydd Sir lleol i holi os yw pob Cyngor Tref/Cymuned sydd â thoiledau cyhoeddus yn eu Ward wedi derbyn y llythyr hwn,*
*b.ddarganfod os oes cyfyngiadau ar y maint y gellir codi praesept o un flwyddyn i'r llall,*
*c.ofyn i'r Cyngor Sir am estyniad i'w dyddiad cau am ymateb.*

5.3 **Asesiad Effaith Ieithyddol CDLl:** Derbynwyd Asesiad Effaith Ieithyddol annibynnol o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Fe'i comisiynwyd gan gasgliad o fudiadau iaith sy'n bwriadu gwneud cais i'r Arolygwyr ei ystyried erbyn y diwrnod cau ar y 16 o Awst. Maent wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned gefnogi'r cais i'r Archwilwyr ystyried yr asesiad fel rhan o'u harchwiliad. Bydd copi caled o'r ohebiaeth yn y Siop Llithfaen.
*Y Clerc i sicrhau fod y Cynghorwyr sydd ar e-bost i gyd wedi derbyn copi o'r ohebiaeth. Y Cynghorwyr i hysbysu'r Clerc o'u barn erbyn y 30 o Orffennaf fel y gellir ymateb i gais y mudiadau iaith fel yn briodol.*

6. **Ceisiadau Ariannol -** Dim

7. **Unrhyw Fater Arall**

7.1 **Cyngor Sir - Torri Gwrychoedd** - *Y Clerc i holi'r Cyng. AJ am y nifer o weithiau y bydd y Cyngor Sir yn torri gwrychoedd yr haf yma.*

7.2 **Cyfrifoldeb am ochr y ffordd** - *Y Clerc i ofyn wrth Un Llais eto am arweiniad ynglyn a phwy sydd a'r cyfrifoldeb am ochr y ffordd.*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

7.3 **Groeslon Pentreuchaf** – Aroddwyd fod y Cyngor Sir wedi sicrhau'r cyllid i wella'r B4354 yn cynnwys croesffordd Pentreuchaf. Bydd y gwaith wedi'i gwblhau yn 2016/17.

7.4 **Ffrydiau gwaith gweinyddol yn deillio o newidiadau yng ngofynion y Rheoleiddwyr**
*Y Clerc i ymgymryd a'r canlynol:*
*a drafftio asesiad Risg i'w gylchredeg gyda phapurau cyfarfod Medi,*
*b drafftio Rheolau Mewnol drafft i'w cylchredeg gyda phapurau cyfarfod Hydref,*
*c darparu rhagamcanion ariannol ar gyfer 16/17 – yn ddibynnol ar pryd gwblhad cyfrifon 15/16.*

7.5 **Presenoldeb ar yn we** – Nododd y Clerc fod Cyngor *Cymuned Boduan, sydd mewn sefyllfa debyg i Pistyll, yn trafod eu hopsiynau ar hyn o bryd.*
*Er mwyn symud ymlaen gofynwyd i'r Clerc::*
*a ddarparu papur yn nodi beth sydd raid ei gofnodi ar y we,*
*b holi beth sydd ar gael yn gymorth ariannol er bodloni'r gofynion statudol,*
*c drafod gyda Chlerc Tudweiliog.*

7.6 **Mandad y Banc –** Penderfynwyd awdurdodi unrhyw ddau o bedwar i arwyddo sieciau ayyb yn y Banc. Ni fydd y Clerc ymysg y pedwar hyn ond bydd gwaith papur y Banc yn cael eu gyrru iddo.
*Y Clerc i ymgymryd a'r tasgau angenrheidiol i wireddu hyn.*

7.7 **Amserlen ddrafft 16/17:** Penderfynwyd ar amserlen cyfarfodydd y Cyngor hyd at Mai 2017. Bydd y cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal ar yr 11 Ebrill 2017. *Y Clerc i gylchredeg yr amserlen fel yn briodol.*

7.8 **Cydbwyllgor AHNE Llŷn:**
SP yn mynychu'r cyfarfod sydd i'w gynnal ar y 13 o Orffennaf ar ran y Cyngor Cymuned.

Derbyniadau: dim
Taliadau: £514.45 AON UK Limited
£300.00 Pwyllgor Cae Chwarae Llithfaen
£200.00 Pwyllgor Gwyl Ifan
Balans cyfrif cyfredol : £2029.69 cr
**Anfonebau i'w talu**
£200.00 R Owen – Barbio Eglwys Pistyll
£300.00 E Griffith – Cyflog Clerc
£48.83 Costau gweinyddol
Awdurdodwyd y Clerc i brynu co bach i storio dogfenaeth y Cyngor Cymuned.

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 13 o Fedi am 7:30 y.h.**

---

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

**COPI MANYLION CYSWLLT DIWEDDARAF i LIS.**
**CYFEIRIAD E-BOST GAN EMLYN?**

7.7 **Adroddiad Blynyddol i Banel Annibynnol Cymru - lwfansau a threuliau a dalwyd i gynghorwyr cymuned –**

*Annodd ei yrru hyd y bydd15/16cyfrifon 15/16 wedi'u cwblhau!!*

**NI SONIWYD AM HYN OND BYDDAF ANGEN GAIR HEFO JOHN ROBERTS I WELD BETH SYDD AR Y CYFRIFON**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347